OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2880 (Cy.250)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*2 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym	- -	*19 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 56(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Gofal Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) O ran y Gorchymyn hwn —

(a) ei enw yw Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004;

(b) mae'n dod i rym ar 19 Tachwedd 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "gwaith" ("*work*") yw gwaith o unrhyw fath a grybwyllir yn adran 55(2)(b) i (d) o'r Ddeddf.

Pennu gweithwyr gofal cymdeithasol

2.—(1) Mae'r gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) isod wedi'u pennu at ddibenion adran 56(1)(b) o'r Ddeddf (dyletswydd y Cyngor i gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol a bennir drwy orchymyn)(**3**).

(2) Mae'r disgrifiad o weithwyr gofal cymdeithasol yn cyfeirio at y personau hynny —

(**1**) 2000 p. 14. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r "appropriate Minister", sy'n golygu'r "Assembly", mewn perthynas â Chymru: adran 121(1) o'r Ddeddf. Ystyr "Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: adran 5(1)(b) o'r Ddeddf.

(**2**) *Gweler* adran 56(4) o'r Ddeddf ynglyn â'r gofyniad i ymgynghori.

(**3**) Dyma'r ail grwp o weithwyr gofal cymdeithasol i gael eu pennu at ddibenion cofrestru gyda'r Cyngor o dan adran 56(1)(b). Gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant a bennwyd gan O.S. 2004/709 (Cy.76) oedd y grŵ p cyntaf.